# y Dinesydd

**PAPUR BRO DINAS CAERDYDD**
**MEHEFIN 1993 RHIF 194**

# PWERDY DYSGU CYMRAEG I OEDOLION YNG NGHAERDYDD - 22 PARK PLACE




*llun Haydn Denman*

Dan nawdd UCAC cynhaliwyd cyfarfod hynod o ddiddorol a phwsig yng Nghaerdydd ar y 6ed o Dachwedd 1972 i wrando ar anerchiad gan Mrs Shoshana Eytan o Wlad Israel. Testun ei hanerchiad oedd esbonio y ffordd roedden nhw yn Israel yn cymathu'r holl Iddewon oedd yn mewnfudo i'r wladwriaeth newydd oedd heb fod yn rhugl yn yr Hebraeg. Am y tro cyntaf clywodd y Cymry'r gair 'Wlpan', sef, cwrs iaith dwys a ddefnyddiwyd i droi'r mewnfudwyr yn siaradwyr Hebraeg rhugl.

Mawr oedd diddordeb y gwrandawyr yn yr anerchiad ac o ganlyniad trefnwyd cyfarfod yn nhŷ Nia ac Ethni Daniel gyda Chris Rees a Gwilym Roberts yn bresennol. Penderfynwyd cynnal arbrawf, sef, sefydlu Wlpan yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd ar bum noson yr wythnos o saith o'r gloch tan naw a defnyddio tîm o athrawon brwd a phrofiadol i wneud y dysgu. Daeth dwsin o bobl ynghyd yn Hydref 1973 i gychwyn yr Wlpan cyntaf yng Nghymru. Ar ddiwedd y cwrs penderfynwyd parhau'r gwaith ac erbyn Mai 1974 roedd pedwar Wlpan yng Nghymru, sef, yn Aberystwyth, Pontypridd a dau newydd yng Nghaerdydd.

Yn 1974, cafodd Chris Rees i ryddhau o'i waith gyda'r Cydbwyllgor am ddwy flynedd ar y dechrau a chafodd waith gan Brifysgol Cymru i astudio ag i ddatblygu Cymraeg i oedolion yng Nghymru. Neilltuwyd stafelloedd yng Ngwasg y Brifysgol yn Stryd Gwennyth a dechreuodd Chris Rees ar ei waith. Ymhen amser penodwyd Elwyn Hughes yn ddirprwy ac yn fuan ppenodwyd staff, nid yn unig yng Nghaerdydd, ond hefyd ym Mangor, Abertawe a Llanbedr. Cyrsiau tebyg i gyrsiau Wlpan oedd y rhan fwyaf o'r cyrsiau a drefnwyd a llawer ohonyn nhw yn cael eu cynnal yn ystod y dydd yn hytrach na'r nos.

Wrth i'r gwaith ddatblygu prynwyd tŷ, sef, 22 Park Place gan y Brifysgol a symudwyd yno o Stryd Gwennyth. Mae Canolfan Dysgu Cymraeg Park Place wedi bod yn bwerdy dysgu Cymraeg i oedolion ers blynyddoedd bellach ac mae cannoedd o bobl wedi dod yn rhugl dan arweiniad a hyfforddiant Chris Rees a'i staff ymroddedig.

Yn ystod y flwyddyn gyfredol mae 250 wedi cofrestru yno ac yn ystod yr haf eleni, gan ddechrau ar 24 Orffennaf, cynhelir Cwrs Chwe Wythnos bob bore ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd sy'n astudio'r Gymraeg ac oedolion sy eisoes yn gwybod tipyn o Gymraeg, Am ragor o fanylion gellir ffonio'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg, 390980. Pob llwyddiant yn y dyfodol i'r Ganolfan dra phwysig hon yn yr ymgyrch i gyflwyno'r Gymraeg i oedolion y ddinas a'r Fro.

Gwasanaeth i Gymry Caerdydd
Yn yr Eglwys Newydd

CAPITAL Travel

Medrwch wneud eich trefniadau ar gyfer eich
GWYLIAU '93
gyda Chymry Cymraeg
BARBARA neu ALED
Mae'r ddau yn aros am eich galwad – ffoniwch

ABTA

Capital Travel Cyf.
11 Heol Penlline
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
(0222) 628661

Rhan o Gwmni Teithio Richards

Adloniant Agenda

Ydych chi rhwng 16 a 60?

Ydych chi eisiau ennill llond banc o arian?

Ydych chi'n dipyn o gês?

Mae eich angen chi ar gyfer cwis newydd ar S4C i'w ddarlledu yn ystod yr haf.

Am fwy o fanylion cysylltwch â **Shân Crofft** ar **0792 470470** NAWR!

Gwaith Achlysurol

Rydym yn awyddus i ymestyn ein rhestr o rai sy'n chwilio am waith achlysurol, dros dro neu rhan amser, ym mhencadlys S4C yn Llanisien.

Fel arfer, gwaith llanw tra bo staff ar wyliau, absenoldeb mamolaeth neu waeledd sydd ar gael. Mae profiad o ofalon ysgrifenyddol yn hanfodol a gorau oll os ydych yn gyfarwydd â phrosesydd geiriau.

**Anfonwch fanylion amdanoch eich hunan at:**

**Kay Davies, Adran Personel**
**S4C, Parc Tŷ Glas**
**Llanisien, Caerdydd**
**CF4 5DU**

S4C

# GWYRDDNI'R BRIFDDINAS YN Y BAG!

Rydym yng Nghaerdydd yn cael gwared ar bedwar ugain mil o dunelli o ysbwriel bob blwyddyn.

Ond rydym yn lwcus fel dinasyddion y brifddinas gan mai Caerdydd ydy'r ail ardal ym Mhrydain gyfan i ymuno â chynllun ' the Recycling City'. Dechreuwyd y cynllun gan y mudiadau UK2000 a Chyfeillion y Ddaear.

Mae sawl ardal o Gaerdydd yn frith o fagiau gwyrdd ddwy waith y mis fel rhan o gynllun arbrofol gan Gyngor y ddinas a ddechreuwyd yn Hydref 1991

Yn y bagiau hyn rhoddir hen bapurau newydd a chylchgronnau; gwydr gwyn, gwyrdd a brown; caniau aliminiwm a dur a photeli a bagiau plastig - y cyfan i'w hailddefnyddio.

Ac mae'n ddiddorol sylwi ar y nwyddau na ellir eu cynnwys yn y bagiau. Yn eu plith mae llyfrau ffôn, amlenni, caniau bwyd a hyd yn oed 'junkmail'

Cesglir yr 'ysbwriel' unwaith bob pythefnos ac yna fe'u trosglwyddir i ganolfan ailgylchynu Colchester Avenue lle dosberthir yr ysbwriel a llaw.

Mae'r arian a gaiff y Cyngor am y nwyddau a ailgylchynir yn amrywio o saith bunt y dunnell am bapurau newydd a chylchgronnau i bum can punt y dunnell am ganiau alwminiwm.

Y mae'r ffaith fod cymaint o bobl Caerdydd yn cefnogi'r cynllun a'u bod yn barod i wahanu y papur a'r poteli o'u hysbwriel arferol yn galondid mawr i Gyngor y ddinas.

Bwriad y cyngor yw ymestyn y cynllun hwn yn sylweddol rhwng nawr a 1995. Erbyn hynny bydd ysbwriel un o bob dau o gartrefi'r brifddinas yn cael ei hailgylchynu.

## Menter Glantaf

Gwobrwywyd Ysgol Gyfun Glantaf am eu menter yn cynhyrchu arweinlyfrau i ymwelwyr â Chaerdydd mewn cystadleuaeth o'r enw Menter Busnes yr Ifanc yn Ne Morgannwg. Yn ogystal a derbyn tlws powlen grisial Fordthorne cyflwynwyd siec o gan punt i'r ysgol. Daeth Ysgol Uwchradd Brynhafren y Barri yn ail ac Ysgol Gyfun Stanwell Penarth yn drydydd.

## TWMPATH DAWNS CYLCH MEITHRIN LLANRHYMNI

Cafwyd noson i'w chofio yn Nhwmpath Dawns Cylch Meithrin Llanrhymni yn neuadd Ysgol Bro Eirwg nos Wener yr 21 o Fai pan ddaeth tua dwsin o ddisgyblion Ysgol Bro Eirwg i'r twmpath, yng ngofal Janet Edwards un o'u hathrawesau, i ddangos eu dawn gerddorol. Cafwyd eitemau amrywiol ar wahanol offerynnau megis y piano, y trombôn, y ffliwt, y ffidil. y recorder, y clarinet a hefyd canwyd cân ddeulais yn swynol iawn. Bu nifer o'r plant yn cynrychioli eu hysgol a'u Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngorseinon. Ar ôl mwynhau lluniaeth flasus cafwyd Twmpath hwyliog. Mae 18 o blant yn y cylch - 14 o fechgyn a 4 merch!

# " Y CRWYS YN COLLI DWY FAM IFANC"

"Der Krebs" yw gair yr Almaenwyr am gancr, a'r un gair a ddefnyddir ganddynt am y cranc, y creadur aml goesog hwnnw sydd a'i afael yn haerllug a di - ollwng.

Aeth dwy o ferched Eglwys y Crwys i'w grafangau yn ystod 1992, a'u cymeryd o'n gafael ganddo yn ystod mis Mai 1993. Y ddwy, yn nhrefn eu colli oedd Eirian Williams o Rhiwbeina, a Freda Roberts o Benylan.

Pobl Gwynedd oedd rhieni Eirianydd (yr enw a roddodd W.O. a Laura Williams iddi), a bu eu hunig ferch yn eithriadol o ofalus ohonynt. Yn eu diwedydd, ehangodd ei chartref a'u croesawu dan ei chronglwyd yn Heol y Coed. Ond, ym 1991, bu farw'r ddau, a Howell, priod Eirian yr un flwyddyn. Ymddeolodd ef yn gynnar o'r BBC, oherwydd ei afiechyd, a gofalodd ei gymar amdano am bymtheg mlynedd yn ei lesgedd trist.

I dref Port Talbot y daeth Eirian a'i rhieni o lannau Merswy, o olwg un diwydiant i olwg un arall. Yno, agorodd Eirian siop trin gwallt, a hawdd i ni ei dychmygu yn rhoi pob blewyn yn ei le. Un felly ydoedd hi, yn ei chartref diddos ac allan yn y ddinas.

Creadur hyll yw'r cranc, ond cadwodd Eirian ei hurddas tan y diwedd. Gwywodd yn drigain oed, ond heb wingo. Cariodd feichiau'i rhai agos a'i gofidiau ei hun heb golli'i ffydd na'i ffilosoffi. O dan ei pharabl di-atal, roedd dyfnder o ddwyster a lot o argyhoeddiad.

Teimlad anghysurus i ni oll yw meddwl am y Dr.Eifion Williams a Miss Bethan Williams, ei phlant, yn colli pedwar o'u hanwyliaid mewn rhyw ugain mis. Bu'n rhaid iddynt aeddfedu ac ymwroli'n sydyn, a dirnad ar unwaith lled a dyfnder ffydd, gobaith a chariad. Meddyg, fel ei briod Debbie, yw Eifion, a bydd Bethan yn dechrau gyda hyn yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni fel pennaeth yr Adran Fywydeg.

Fel eu ffrindiau ieuainc, mae pawb ohonom yn meddwl amdanynt yn eu gwacter pedwar - onglog.

Yn yr hen Sir Fflint, yn Rhes - y -cae, pentref ar y mynydd - dir rhwng yr Wyddgrug a Threffynnon, y magwyd Freda Roberts. Fel Eirian, yr oedd hithau yn unig blentyn, a'i thad, Mr Tom Pierce, wedi marw ers blynyddoedd. Ond, mae ei mam wedi'i goroesi, ac mae colled Mrs Margaret Pierce yn un erchyll, am iddi gael cymaint o gwmni Freda er ei hymddeoliad o'r Swyddfa Gymreig ym 1990. Mewn cryn boen, byddai Freda yn neidio i'w modur yn aml, ac yn teithio'r holl ffordd i dopiau Clwyd i'w hanwesu. Nid oedd neb yn sylweddoli ar y pryd cymaint a gostia'r teithiau mynych hyn i'r unig ferch na allai lai na bod yn gydwybodol.

Yn ei hangladd rhoddwyd teyrnged gynnes iddi gan Mr Illtud Lloyd, diacon yn y Tabernacl, a chyn ei ymddeoliad, yn Brif Arolygwr Ysgolion. Freda Roberts oedd ei ysgrifenyddyddes fedrus, a chyfeiriodd at ei llwyddiant yn cynnal swyddfa gyda'i thrylwyredd a'i thaclusrwydd. Gallai gadw cyfrinach yn ddiogel, a chynnal safonnau uchel ddydd ar ôl dydd.

Yr oedd gan Freda, a'i phriod, Mr Dan Roberts (Ysgrifennydd yr NUT yng Nghymru) gylch eang o ffrindiau, yn Llundain, Llanrwst a Chaerdydd, a byddai eu merched, Siân a Catrin, yn tywys eu cyfeillion ieuainc hwythau i brofi lletygarwch a haelioni eu mam. Nid oedd Freda yn un i wastraffu geiriau, ond yn ei chartref a'i chegin, hoffai wasgaru'i charedigrwydd yn hael ac yn rhwydd. A phwy fydd yn anghofio'i phaned te a'i chroeso ym mhabell Dan yn yr Eisteddfod Genedlaethol?

Yn ystod ei chystudd, a ddioddefodd mor ddewr, cafodd fodd i wynebu'r diwedd yn ymweliadau ac ymholiadau, cofion a chyfarchion y cylch hwn o gyfeillion agos. Yn Ysbyty'r Brifyfgol, ac yn Holme Tower, daliodd i ymddiddori ym mywyd y cleifion o'i chwmpas, gan fwrw golwg un oedd am wneud mwy o ffrindiau tuag atynt. Hyd y diwedd, 'roedd ei meddwl yn glir a'i chalon yn curo'n gynnes.

Daeth ei chydweithwyr i'w hangladd, a chydweithwyr Dan, a ffrindiau'r teulu. Ym Mae Colwyn, ymunodd ei mam a'r teulu â'r galarwyr a'i theulu yng nghyfraith o gylch Arthog, a ffrindiau ieuainc Siân a Catrin o'r Gogledd a'r De, a chreu tyrfa o addolwyr hiraethus.

A hithau'n dod o fro Daniel Owen, y nofelydd mawr, daeth geiriau un o'i gymeriadau, Thomas Bartley i gôf yn ei chynhebrwng ac yn angladd Eirian:

"Dydy crefydd ddim yn cadw dyn rhag profedigaethau"

Ond, mae crefydd yn medru cynnal teuluoedd yn eu profedigaethau, a dyma'n gobaith am deuluoedd y ddwy wraig yma, dwy a gollwyd yn llawer rhy gynnar.

Eu Gweinidog.

## Bore Coffi a Bore Sadwrn dysgu Cymraeg yn Ysgol Melin Gruffydd.

Fore Sadwrn yr 22 o Fai gwelwyd rhieni a phlant yn tyrru i'r ysgol ar gyfer Bore Coffi, dysgu Cymraeg, helfa drysor a phrynu llyfrau Cymraeg oddi ar stondin Siop Lyfrau Cymraeg Canolfan Gymraeg Soar ym Merthyr Tudful. Cafwyd tri grŵp ar gyfer y rhieni oedd yn dysgu Cymraeg a chofrestrodd dros ugain. Trefnwyd meithrinfa hefyd tra bu'r rhieni yn y grwpiau iaith. Pwyllgor Rhieni/Athrawon yr ysgol oedd yn gyfrifol am y bore dan arweiniad Gwen Awbery y Cadeirydd a Linda Thomas yr Ysgrifennydd. Bu'r bore yn llwyddiant ysgubol.

Annwyl ddarllenydd,

Mae S4C, fel rhan o gyfres newydd o "Aria", yn gwneud rhaglengerddoriaethgyffrous lle'r adlewyrchir elfennau perfformiad byw gan ffotograffau a ffiliau cine.

Yn yr rhaglen, bydd perfformiad pianydd ifanc enwog yn cyd - redeg a lluniau hanesyddol o Gymru a'u phobl.

Os oes gennych ffotograffau, neu ffilmiau cine cynnar, amatur neu broffesiynnol, o ddigwyddiadau personnol, teuluol neu gymdeithasol (pa fodd bynnag "ddibwys" yr achlysur) o gyfnod cyntaf ffotograffiaeth hyd at y pum - degau, cysylltwch â Ieuan Morris ar 091 261 0077. Hefyd, gellwch yrru defnydd yn syth i Andrew O'Neill, Comisiynydd Cerdd, S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF4 5DU. Edrychwn ar ôl eich defnydd yn ofalus a'i ddychwelyd yn ddiogel.

Ieuan Morris.

## Gŵyl Gorawl yn Eglwys Dewi Sant.

Roedd Eglwys Dewi Sant dan ei sang nos Lun 24 o Fai ar gyfer Gŵyl Gorawl Gymraeg Esgobaeth Llandaf. Pregethodd Esgob Llandaf y Tra Pharchedig Roy T Davies yn huawdl a chafwyd cyfraniadau corawl gan Gôr Merched Ysgol Gyfun Gymraeg Llanhari, plant Eglwys Dewi Sant a Chôr oedolion yr eglwys. Yr Organydd oedd Phillip Laugharne.


**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

# GEFEILLIO EGLWYS EBENESER, CAERDYDD AG EGLWYS PEDR, STUTTGART.



Dros Ŵyl y Pasg bu pump o bobl ifanc Eglwys Pedr Stuttgart yn ymweld â ni yn Eglwys Ebeneser. Hwn oedd ymweliad cyntaf grŵp o'r eglwys yr ydym wedi gefeillio â hi yn yr Almaen.

Roedd Saskia, Sabine, Michael Thomas ac Uwe yn gymeriadau hoffus ac annwyl. O'r funud y cyrhaeddasant hyd y funud y gadawsant, bu'n wythnos llawn bwrlwm a chyffro. Cafwyd llawer o firi a thynnu coes, digon o chwerthin iach, siarad dibaid a thrafodaethau diddorol. Bu'n wythnos o foreau cynnar a nosweithiau hwyr! Cawsom ddangos ein dinas a'n gwlad i'n ffrindiau newydd - ei thirwedd a'i hiaith, ei phobl a'i hanes.

Yna ym mis Mai, cawsom y fraint o groesawu criw o oedolion o Eglwys Pedr i'n plith. Trefnwyd rhaglen lawn ar eu cyfer hwythau hefyd. Buom yn ymweld â Chastell Caerdydd, cawsant gyfarfod y Maer yn Neuadd y Ddinas, gwelsant Neuadd Dewi Sant, Bae Caerdydd, Sain Ffagan, Eglwys Llandaf a Bro Gŵyr, Cawsant groeso arbennig yn Llety Cymro yn Heol y Gadeirlan.

Cafwyd dau wasanaeth arbennig yn Ebeneser ar y Sul. Roedd cael cydaddoli â'n brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist yn brofiad gwefreiddiol. Gweinyddwyd y cymun yn Gymraeg ac yn Almaeneg. Bu'r Parchedig Johannes Ringwald yn ein harwain mewn gweddi, ac yn ein diddanu a'i anerchiad, tra bu ei briod Ieke yn arwain y côr bychan.

Er gwaetha'r gwahaniaethau sydd yn bodoli rhwng y ddwy genedl, a'r bwlch ieithyddol, mae sail cadarn i'r berthynas newydd hon, sef cariad Crist. Er na ellir anghofio hanes y gorffennol a'r briwiau, gallwn edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. Mae Cymru wedi ei gefeillio â thalaith Baden Wurttemberg ar lefel fasnachol; mae dinasoedd Caerdydd a Stuttgart wedi eu gefeillio. Mae'n briodol felly bod dwy eglwys yn gefeillio. Mae cariad Crist yn pontio pob gagendor.

Diolchwn i'r Parchedig Geraint Tudur, Mr Elwyn Moseley a Mr Gareth Wyn Jones (a oedd yn ysgrifennydd Ebeneser bryd hynny) am eu gweledigaeth. Mae'n braf gweld ffrwyth eu llafur yn datblygu. Edrychwn ymlaen at ymweld â'n cyfeillion yn Stuttgart.

Petra Bennett.

---

# PORTREAD O LESOTHO

## Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

**Mae'r arddangosfa "Portread o Lesotho" yn ffrwyth cydweithrediad agos rhwng Amgueddfa Werin Cymru, Dolen Cymru ac Uchel Gomisiwn Lesotho.**

**Dathliad ydyw o'r berthynas agos a sefydlwyd dros ddeng mlynedd bellach rhwng y ddwy wlad, ac ynddi gwelir agweddau ar fywyd a gwaith pobl Lesotho. Canolbwyntir ar eu cartrefi, addysg, crefydd a'u dulliau o fyw mewn darluniau lliw, a cheir detholiad o'r pethau a defnyddir yn y cartref, ynghyd â darnau a gynhyrchir i'r fasnach ymwelwyr.**

**Bydd yr arddangosfa i'w gweld yng nghyntedd yr Amgueddfa Werin o 12 Mai tan ganol mis Gorffennaf. Bryd hynny fe'i cludir i faes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd a'i chadw yno dros gyfnod yr Eisteddfod Genedlaethol, cyn iddi fynd ar daith drwy Gymru gyfan yn ystod y ddwy flynedd nesaf.**

Annwyl Olygydd,

CYN AELODAU CORAU YSGOL ARDUDWY

Hoffwn fanteisio ar eich colofn lythyrau i ddod i gysylltiad â chyn gymaint ag sy'n bosib, o gyn-aelodau corau Ysgol Ardudwy, Harlech, corau oedd o dan arweiniad Mr. Rhyddid Williams, cyn-athro Cerdd yr ysgol.

Gobeithir trefnu ad-uniad (os bydd digon o ymateb) i rai fu'n aelodau o'r corau tra bu Mr. Williams yn Ysgol Ardudwy, DDYDD SADWRN, MEDI 11eg, yn Ysgol Ardudwy, Harlech, gyda'r bwriad o gynnal cyngerdd y noson honno, o dan arweiniad Mr. Williams, gyda'r elw i fynd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Meirionnydd 1994.

Bydd prydau bwyd wedi eu trefnu yn yr Ysgol, cinio a the (cost o gwmpas £12 - £15). Ymgynnull yn y bore tua 11.00 i gael coffi a sgwrs cyn dechrau ymarfer.

Os oes rhai o'ch darllenwyr yn gyn-aelodau, neu yn gwybod am rai fu'n aelodau, ac yn awyddus i ddod i'r aduniad, a wnant gysylltu a mi, gan anfon amlen barod er mwyn i mi gael cysylltu â hwy yn nes ymlaen. Fe hoffwn gael y wybodaeth yma ganddynt:-

a) ydynt angen bwyd llysieuol.

b) llais - soprano neu alto.

Fe hoffwn iddynt gysylltu â mi os yn bosib erbyn Gorffennaf 1af, er mwyn i mi symud ymlaen gyda'r trefniadau terfynol.

Yr eiddoch yn gywir,

BERYL WYN HUGHES.

Annwyl Olygydd,

Hyd yn hyn ychydig iawn o sylw a gafodd hanes y bobl gyffredin, eich teulu chi a ni, 'doeddem ni ddim yn cyfrif yng ngolwg yr haneswyr, ond i fod yn deg â'r rheini 'roedd defnyddiau'r hanes ar wasgar. Mae nhw'n mynd yn brinnach o flwyddyn i flwyddyn hefyd. Mi wyddoch fel y mae pethau - gwagio hen ddroriau, clirio tŷ tain a nain. Dyna pam y sefydlwyd prosiect yma yng Ngholeg y Brifysgol Bangor i geisio diogelu pob mymryn posib ohono cyn iddo fo ddiflannu am byth.

Ond pa ddefnyddiau? Atgofion o bob math, llythrau, dyddiaduron, hen lyfrau ysgol, llyfrau siop, papurau cyflog. Gallant fod yn Gymraeg neu Saesneg, ar lyfr copi neu dudalennau rhydd. Mae croeso i bob dim yn enwedig o'r blynyddoedd rhwng 1800 a 1965.

Byddwn yn falch o'i gael ar fenthyg gyda hawl i'w gopio, ac os felly rhown ein gair y cewch y cyfan yn ôl yn ddiogel. Ar y llaw arall, wrth gwrs gallwch ei drosglwyddo i'w gadw. Byddwn yn dosbarthu'r gwreiddiol neu gopi i Archifdai'r Sir perthnasol er mwyn iddo fod wrth law'n hwylus ar gyfer y gymdeithas leol.

Mae pob darn sy'n cael ei golli 'n creu bwlch ein hanes, ac ni allwn 'fforddio hynny. Os hoffai unrhyw un ohonoch drafod y mater ymhellach yna byddem yn falch iawn o gysylltu â chi. Os oes gennych unrhyw beth o ddiddordeb cysylltwch a ni:

Dr.H.G.Williams. Rhif ffôn: (0248) 382233

Dr.Delyth Morris. Rhif ffôn: (0248) 382140)

Mr.R.Maldwyn Thomas. Rhif ffôn: (0248) 382951

neu â Mrs. Julie Davies, Ysgrifenyddes, Ysgol Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol Rhis ffôn: (0248) 382215

Canolfan Astudio'r Gymdeithas Gymreig,

Coleg y Brifysgol Gogledd Cymru,

Bangor,

Gwynedd.

27 Ebrill 1993

Annwyl Ddarllenwyr

Oes 'na broblem yn eich ardal chi? Y palmentydd yn beryglus, gormod o sŵn, ceir yn or-yrru, er enghraifft. Wel, os oes 'na rhywbeth yn eich corddi chi ac fe hoffech leisio eich barn - dyma'ch cyfle. 'Rydym yn paratoi ail gyfres o raglenni 'Ond y Broblem Yw...' ar gyfer S4C ac fe hoffem glywed oddi wrth unrhyw un yn unrhywle ynglŷn ag unrhyw fater bach neu fawr. Byddwn yn talu am syniad a wêl olau dydd ar y sgrîn.

'Rydym hefyd yn chwilio am 'Deulu Mwyaf Gwyrdd Cymru'. Os gwyddoch chi am deulu sy'n gweddu i'r disgrifiad yma neu os ydach chi'n un ohonynt eich hun yna fe hoffem glywed oddi wrthych. Bydd gwobr gwerth ei chael i'r teulu llwyddiannus. Y rhif ffôn yw 0286 677595 neu anfonwch air at Ann Fôn, Hel Straeon, Gronant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1NS.

Edrychaf ymlaen i glywed oddi wrthych.

Yn gywir iawn

Ann Fôn Jones

# MENNA'N MANYLU

Mi fûm mewn dwy ffair yn ddiweddar - y gyntaf oedd yn yr Hayes, Caerdydd lle cynhaliwyd Gŵyl Ewropeaidd efo adloniant o wahanol wledydd a stondine o bob math. Roedd gan ffrind i mi stondin dillad plant yno sef "Pitr-Patr" a bûm yn ei helpu yma ac acw i roi seibiant iddo. Ar y noson Gymraeg clywais gân neu ddwy gan Heather Jones a braf oedd gweld Ac Eraill efo'i gilydd eto. Prin oedd y gynulleidfa a diffyg ymwybyddiaeth a hysbysebu oedd yn rhannol gyfrifol am hynny.

Yr ail oedd Ffair Glamai'r Bala, ac er i'r glaw ddifetha'r awyrgylch y tu allan, digon gwlyb oedd hi y tu mewn hefyd, a braf oedd gweld hen ffrindie wedi mentro o'u cregyn am unwaith yn y flwyddyn. Un siomedigaeth ges i yno sef efo Roc Pwllheli - erbyn hyn dydy'r gwerthwyr ddim yn cael cynnig tameidiau rhydd o roc ar blât ddim mwy oherwydd glanweithdra a rheole llym y Farchnad Gyffredin - un arall o draddodiade Cymreig yn cael ei lorio gan rym y llywodraethau!

Yr un penwythnos cefais fynychu Rali'r Ffermwyr Ifanc ac unwaith eto - roedd yn bwrw! Clwb Cwmtirmynach enillodd ond roedd yr wyth clwb arall yr un mor frwdfrydig ag erioed.

Ar Sul y penwythnos hwnnw mi fues yn gwerthu pethe mewn sêl cist car i godi arian at Ysgol Plas Coch, Wrecsam (ysgol fy nith fach) - ac ie, glaw oedd hi eto, ond roedd yn brofiad bod ynghanol pobol oedd fel fwlturiaid yn trio gweld beth oedd yn y bŵt cyn i ni barcio hyd yn oed! A chyn i chi fy marnu am wneud busnes ar y Saboth, mi fues yn y capel yn y nos hefyd - pob bendith!

# MERCHED WRTH EU GWAITH

Wrth groesawu'r Gwanwyn eleni eto rwy'n siwr fod llawer ohonoch wedi bod wrthi yn rhoi trefn ar rai o'r cypyrddau a'r droriau yn eich cartrefi. Yn sgil hynny, dod ar draws yr hen focs lluniau sy'n llechi yn rhyw gornel. Treulio awr neu ddwy yn hel atgofion a'u rhoi yn ol yn ddiogel am flwyddyn arall. Efallai nad ydych erioed wedi ystyried faint o hanes sydd ynghlwm wrth y lluniau hyn, faint mae'n nhw'n ddweud wrthym am "ffordd o fyw" ein hynafiaid mewn cyfnod arbennig.

Ar hyn o bryd, mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn casglu lluniau o ferched a gwragedd wrth eu gwaith o gwmpas y tŷ. Oes gennych chi luniau o wraig wrth ei gwaith bob dydd, e.e. yn golchi a smwddio, yn golchi'r llawr, yn glanhau ffeneftri, yn cario glo - mae'r rhestr yn ddi - ddiwedd. Efallai bod lluniau ar gael o wragedd yn arfer eu crefft o goginio, gwnio, cwiltio, gwneud canhwyllau ac yn y blaen 'Does dim rhaid i'r lluniau fod yn rhai hen iawn. Byddai cael enghreifftiau o'r 1960-au a'r 1970-au yn dderbyniol, yn ogystal â rhai o gyfnodau cynt, wrth gwrs.

Gofyn am fenthyg y lluniau yn unig a wnaf a chael caniatad i'w copio ar gyfer ein harchif luniau. Cânt eu dychwelyd yn ddiogel i'r perchennog bob tro. Byddaf yn ddiolchgar iawn os ewch chi ati i chwilota am yr hen focs lluniau 'na unwaith eto. Edrychaf ymlaen at gael clywed oddi wrthych.

S.Minwel Tibbott

Is-Geidwad

Adran Adeiladau a Bywyd Cartref

Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan

Caerdydd CF5 6XB.

# IEUENCTID Y DDINAS YN LLANELWEDD

Mae'n dda gweld y bydd ieuenctid y ddinas yn disgleirio yn yr Eisteddfod yn Llanelwedd eleni.

Ar y nos Fawrth bydd y bariton Jeremy Huw Williams yn canu rhan Archoffeiriad Bêl yn Nabucco, Verdi. Un o gyn-ddisgyblion Ysgol Glantaf yw Jeremy ac mae'n brysur yn gwneud enw da iddo'i hun ar lwyfannau. Mae newydd ryddhau rhai o'i ganeuon diweddar ar gaset, sef Requiem Howells a Five Mystical Songs Vaughan.Nid yw'r soprano Iona Jones hithau'n ddieithr i lwyfannau Prydain. Ers iddi adael y Guildhall School of Music mae wedi mynd o nerth i nerth. Yn Llanelwedd ar y nos Iau mae'n unawdydd gyda Chôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru mewn cyngerdd yn Eglwys y Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt. Y llynedd aeth gyda'r cor i America gan ganu mewn mannau fel Dallas, Topeka, Manhattan a Kansas City. Mae galw cyson am ei gwasanaeth gan gymdeithasau corawl yng Nghymru.

Cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Caerdydd yw Elizabeth Stevens, y mezzo soprano. Bydd darllenwyr Y Dinesydd yn cofio mai Elizebeth a enillodd Ysgoloriaeth Osborne Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn. Aeth yn ei blaen i ennill Ysgoloriaeth Towyn Roberts yn Aberystwyth. Nos Wener yr Eisteddfod bydd yn canu gyda Band Pres Ieuenctid Cymru.

# Enwogrwydd i Tanni Grey

Ar ôl ennill medal aur yn y Paralympics yn Barcelona y llynedd mae nifer o anrhydeddau eraill wedi dod i'w rhan ers hynny. Cafodd MBE yn anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd ac yn ddiweddar cafodd hi ei dewis i fod yn Bersonoliaeth y Flwyddyn ym myd Chwaraeon Cymru a dyma'r tro cyntaf i athletwr cadair olwyn dderbyn yr anrhydedd. Cyflwynwyd rhodd iddi gan yr actor Cymreig Syr Anthony Hopkins. Ar ben hynny mae hi wedi ennill lle ar Rôl Anrhydedd Neuadd Anrhydedd Chwaraeon Cymru a leolir yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan maes o law. Bu ei thaid a'i nain a'i mam yn aelodau selog yng Nghapel y Crwys am flynyddoedd lawer. Lwc dda i Tanni yn y dyfodol.

## Gŵyl Haf Genedlaethol CYD

CYD

Fe'i cynhelir yn yr Hen Goleg Aberystwyth ddydd Sadwrn y 26 o Fehefin a bydd rhaglen lawn o weithgareddau yn ystod y dydd. Pris mynediad fydd £2 i oedolion a £1 i blant. Bws o'r De: Andrea Jones 0792 470470 (dydd). Am fwy o wybodaeth ffoniwch CYD 0970 622143. Croeso i Gymry Cymraeg a Dysgwyr i'r Ŵyl hon.

Annwyl Olygydd

Hoffwn ymateb i erthyglau diweddar yn Y Dinesydd yn trafod sefydlu Cylch Cymdeithas i hoywon Cymraeg yng Nghaerdydd.

Fel Undodiaid credwn fod pob unigolyn yn gydradd ei werth, beth bynnag fo ei hil, crefydd, iaith, rhyw neu dueddiad rhywiol. Mae rhagfarn yn erbyn person neu grŵp ar sail un o'r achosion uchod yn wrthun i ni. Hefyd, credwn mai rhan o bwrpas crefydd yw agor y meddwl a'r galon i ddealltwriaeth ddyfnach o bobl ac i werthfawrogi eu hamrywiaeth.

Yr eiddoch yn gywir

| | |
|---|---|
| SHEILA COUSINS | BILL FISHER |
| ANN SAALBACH | WINIFRED JOHN |
| ROBIN ATTFIELD | MARJORIE M.COLLINS |
| JANE WILLIAMS | Mrs N. WILSON |
| BERT ORCHARD | PARCH J. ERIC JONES |
| PARCH. D. R. JOHN | ROBERT DAVIES |

# CYMRODORION CAERDYDD:

Pentalar pob tymor i Gymrodorion Caerdydd yw'r wibdaith flynyddol Ers ugain mlynedd a mwy buom yn ymweld a mannau hanesyddol yng Nghymru, a hefyd a Lloegr lle mae 'na gysylltiadau Cymreig, neu Geltaidd. Ymhlith y mannau dros y ffin, buom ar deithiau i Glastonbury'r Greal Santaidd ac i Gwrt Llangain, rhwng Henfford a Phontreilas, lle treuliodd Owen Glyndŵr ei flynyddoedd olaf, a lle honnir i Siôn Cent fod yn fardd teulu. Hwyrach mai'r daith bellaf fu honno i Charlecote Park y tu draw i Stratford on Avon lle cosbwyd William Shakespeare am ddala ceirw ar dir y plas, a lle bu gwraig hynod o Gymraes yn byw ganol y ganrif ddiwethaf. Mary Elisabeth Williams oedd hi - merch Syr John Williams, Plas Bodelwyddan. Bu John Thomas, Telynor y Brehin yn ymweld â hi yn Charlecote i roi gwersi telyn iddi. Cyhoeddodd hi hefyd ddyddiaduron am ei theithiau yn Ewrob yn 1841/2.

Eleni fodd bynnag, gan ei bod hi'n wyth can mlynedd a hanner dathlu sefydlu'r Abaty Sisteraidd Yng Nghwm Hir, Maesyfed penderfynwyd mai yno y dylid pererindota. Ar fore Sadwrn Mai 15fed fe gychwynwyd ar y daith, gan alw yn Aberhonddu am goffi a chysur, cyn mwynhau cinio canol dydd blasus yng ngwesty'r Metropole yn Llandrindod.

Wedi cinio bant a ni i Gwm Hir i gael golwg ar yr adfeilion yno. Rydym fel Cymrodorion yn ffodus iawn i gael ein Hathro Preswyl parhaol ar ein teithiau - neb llai na Dr. J.Gwynfor Jones. A dyledus ydym iddo ef am ei anerchiadau cyfoethog a champus ar lawer gwibdaith yn y gorffennol. Afraid dweud i ni fwynhau ei araith feistrolgar ar hanes Abaty Cwm Hir, ac ar berthynas Llywelyn Ein Llyw Olaf â'r fangre. Yn dilyn araith Gwynfor yn y fan a'r lle, rhoddwyd cyfle i'r aelodau gael golwg fanylach ar yr adfeilion, cyn segura am ychydig yn y pentre a'r eglwys leol.

Ffwrdd â ni wedyn dros y mynydd i'r Drenewydd i gael te a chlonc a gwag swmera am ychydig, cyn teithio nôl i Gaerdydd yn hapus luddedig wedi siwrnai lawen a diddorol.

Ifor Rees.

# Apêl am nawdd ar gyfer tri gŵr ifanc o Batagonia

Y llynedd ymddangosodd nifer o erthyglau yn y "Dinesydd" o'r Gaiman ym Mhatagonia gan Gwilym Roberts oedd yn treulio blwyddyn yno fel tiwtor Cymraeg. Rhan o ffrwyth ei lafur yno ydy bod tri gŵr ifanc o Batagonia wedi penderfynu dod ar gwrs Cymraeg Prifysgol Cymru yng Ngholeg Llanbedr dros y cyfnod y 12fed o Orffennaf hyd y 4ydd o Fedi. Agorwyd cronfa gan Pedr MacMullen (Caerdydd gynt) y tiwtor Cymraeg presennol ym Mhatagonia i gynorthwyo'r tri i wireddu eu breuddwyd o ddod i Gymru am y tro cyntaf ac i ddod yn rhugl yn yr iaith drwy fynychu'r cwrs yn Llanbedr. Mae'r gôst yn uchel i hedfan o Dde Amerig i Gymru heb sôn am y tâl am y cwrs a'r costau o fyw yma am ddau fis. Felly apêl ydy hon am nawdd ariannol ar gyfer y tri. Os rydych chi'n fodlon cefnogi'r apêl, yna anfonwch bob cyfraniad mawr neu fach at Ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin, 5, Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. Sieciau yn daladwy i'r Gymdeithas. Diolch ymlaen llaw i ddarllenwyr y "Dinesydd"

# CYMRAWD LLÊN GWERIN CYDWLADOL

Derbyniodd aelod o staff Amgueddfa Werin Cymru, Robin Gwyndaf, anrhydedd arbennig yn ddiweddar drwy gael ei ethol yn Gymrawd Llên Gwerin Cydwladol. Rhoddir yr anrhydedd hwn i ysgolheigion a wnaeth gyfraniad pwysig yn maes llên gwerin drwy ddarlithio, cyhoeddi a hybu astudiaethau gwerin ar raddfa genedlaethol a chydwladol. ef yw'r cyntaf o Gymru i dderbyn yr anrhydedd.

Y mae Robin Gwyndaf yn Is-Geidwad yn Adran Amaethyddiaeth, Crefftau a Bywyd Diwylliannol, Amgueddfa Werin Cymru, ac yn Bennaeth yr Archif Hanes Llafar. Y mae hefyd yn Ddarlithydd Anrhydeddus mewn llên gwerin yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor. Ef oedd Llywydd cyntaf Cymdeithas Llafar Gwlad, ac y mae'n Olygydd Ymgynghorol ei chylchgrawn.

Ym mis Mai eleni yr oedd yn ddarlithydd gwadd yn Nenmarc ar farddoniaeth werin. Yna, ym mis Medi bydd yn westai Academi Frenhinol Sweden yn Stockholm mewn cynhadledd gydwladol ar grefydd a choelion gwerin.

# TRYDAN DE CYMRU YN CYMREIGIO

Yn ôl Huw Roberts llefarydd ar ran Trydan De Cymru mae tua 200 o'u staff yn eu swyddfeydd wedi derbyn cynnig y cwmni i fynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg yn eu lleoedd gwaith ac mae tua chant arall wedi cael cymorth ariannol i fynychu dosbarthiadau allanol. Ymatebodd bron un mewn deg o'r gweithlu yn ffafriol i holiadur i weld faint o alw fyddai am wersi Cymraeg pe bai'r cwmni yn mynd ati i drefnu dosbarthiadau. Acen sy'n gyfrifol am y gwersi yn swyddfeydd y Bwrdd.

# CAMP GEOFFREY!




Pan glywais fy mod yn rhedeg ym Marathon Llundain, cymysg oedd fy nheimladau. Balch oeddwn i gael cyfle i wireddu breuddwyd, ond ofnus am bellter y râs enwog.

Dechreuais ymarfer o ddifri Ddydd San Steffan gan redeg ugain milltir yr wythnos. Y llynedd, rhedais ddwy hanner marathon a chwe râs o ddeng milltir gyda sawl un o chwe milltir: ond, y mae gwahaniaeth mawr rhwng hanner marathon a phellter Marathon Llundain o chwe milltir ar hugain, tri chant wyth deg a phumph a lathenni.

Am bedwar mis, rhedais drwy law, stormydd cesair, mwd a heulwen gan wneud un râs o ugain milltir chwe wythnos cyn y diwrnod mawr. Gorffennais yn weddol, ychydig dros dair awr. O fis Mawrth ymlaen, rhedais dri deg pum milltir yr wythnos. Cefais ffliw, pothelli ar fy nhraed, ond tuag at y Râs Fawr yr oeddwn yn teimlo'n hyderus am orffen yn ddiogel.

Anghofiaf fi fyth sefyll ym Mharc Greenwich ar y Dydd Sul, 18fed o Ebrill 1993, ac yn ystod y Râs teimlais ias o bleser a phoen. Rhedais am bedair milltir ar bymtheg cyn i fy nghoesau droi yn jeli; wedi hynny y peth pwysig oedd gorffen gyda chymysgedd o gerdded a loncian.

Ar ôl gorffen mewn pedair awr, pum deg pum munud gyda'r medal o amgylch fy ngwddw, yr oeddwn yn teimlo'n flinedig ond yn falch.

Mae Eglwys Ebeneser Caerdydd wedi penderfynu cefnogi Cymdeithas Clefyd Alzheimer fel eu helusen eleni, ac rwy wedi cael cefnogaeth wych gan fy nghyd-aelodau yn yr ymdrech i godi arian. Ar hyn o bryd (diwedd mis Mai) yr ydw i wedi casglu - diolch i'm teulu a ffrindiau hefyd - bron i naw cant o bunnoedd. Os hoffech chi gyfrannu, wnewch chi gysylltu â fi ar Gaerdydd 551737 neu anfon siec ataf i 17, Heol Urban, Danescourt, Llandaf, Caerdydd CF5 2QP erbyn diwedd mis Mehefin. Fe fyddai'n braf iawn codi swm terfynol o fil o bunnoedd! Diolch yn fawr.

Geoffrey Wright.

## CHWARAEON CYMREIG DAN NAWDD NWY PRYDAIN

Ddydd Sul y 25 o Orffennaf yn Stadiwm Lecwydd cynhelir y Chwaraeon Cymreig blynyddol. Dyma'r tro cyntaf ers 1972 i'r Chwaraeon cael eu cynnal yn y ddinas. Deilliodd y syniad o gynnal Chwaraeon Cymreig yn 1958 o ganlyniad i gynnal Chwaraeon yr Ymerodraeth yng Nghaerdydd. Defnyddiwyd Stadiwm y Maendy ar y dechrau nes iddi gau ac yna symudwyd i Stadiwm Cwmbran yng Ngwent. Bydd tua 120 o athletwyr yn cymryd rhan yn y Chwaereon yn Lecwydd a bydd nifer o sêr y byd athletaidd o Gymru ac o rannau eraill y byd yn cystadlu yno. Y llynedd yng Nghwmbran roedd cant o athletwyr gorau'r byd yn bresennol gan gynnwys Colin Jackson.



Hywel Dafydd, Wingfield Road, Yr Eglwysnewydd a Nathan Roche, Rhos Llan, Rhiwbeina - disgyblion yn Ysgol Glantaf a ymddangosodd ar Labrinth ar S4C ym mis Mai.

# Drama "Hedd Wyn" yn ennill clod eto!

Nos Iau y 27 Fai yng Ngwesty Grosvenor House Llundain cynhaliwyd noson wobrwyo gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol, ac er gwaethaf cystadleuaeth gre o Loegr, am y tro cyntaf erioed dyfarnwyd ffilm Gymraeg sef "Hedd Wyn" yn ddrama sengl orau 1992. Fe'i dangoswyd ar S4C gynta a chafodd sylw mawr. Cyfarwyddwr y ffilm oedd Paul Turner a sgrifennwyd y sgript gan Alan Llwyd. Gŵr o Gernyw ydy Paul Turner a ddysgodd Gymraeg flynyddoedd yn ôl ar Gwrs Wlpan yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd. Llongyfarchion iddo ac i bawb a fu ynglŷn a'r ddrama hon.

# "Sblash dros Gymru!"

Dŵr ydy thema Gŵyl Feithrin Flynyddol MYM a gynhelir dros y cyfnod 21 - 25 o Fehefin ac fel rhan o'r gweithgareddau bydd holl blant y cylchoedd yn ymweld â phwll nofio yn eu hardal. Nôd yr ŵyl ydy tynnu sylw rhieni at addysg feithrin Gymraeg a pherswadio mwy a mwy o rieni fod dwy iaith yn well nag un. Bydd cylchoedd meithrin Caerdydd yn cynnal eu "sblash" nhw ym Mharc Victoria ger y pwll padlo fore Dydd Mercher y 23 o Fehefin o ddeg o'r gloch ymlaen. Dewch a phicnic gyda chi a gweddiwch am dywydd braf!

# COFIO'R FENDIGAID ANN YN EGLWYS Y CRWYS

Fore Sul, 23 Mai, dadorchuddiwyd ail ffenestr liw yng Nghapel Eglwys y Crwys, Richmond Road, cymar i'r un a roddwyd ym mis Hydref 1991 gan Mr. Howard George er côf am ei ddiweddar briod, Mrs Eunice George. Portreadu bywyd a gwaith y Perganiedydd, William Williams o Bantycelyn, y mae'r ffenestr honno; emynydd arall, Ann Griffiths Dolwar Fach, yw pwnc y ffenestr newydd a roddwyd gan Iwan Humphreys a'i chwaer Gwen i gofio'u mam, Mrs Annie Humphries, a'u modryb, Miss Eiry Humphreys.

Gwaith y crefftwr o Lanelli, Mr. Gareth Morgan, yw'r ffenestr hon eto. Pen Ann yw canolbwynt y llun, a chasglwyd o'i chwmpas achlysuron arbennig yn ei bywyd. Yn y rhan uchaf gwelwn Eglwys Llanfihangel yng Ngwynfa lle bu'r Ann ifanc yn addoli.

Mae Dolwar Fach yno, wrth gwrs, y tu allan a'r tu mewn - lle gwelwn Ruth y forwyn a ddysgodd emynau Ann ar ei chôf a'u hadrodd i'w gŵr, John Hughes o Bontrobert, eu sgrifennu ar bapur - gyda'r canlyniad bod miloedd, dros y blynyddoedd, wedi cael elwa o brofiadau Ann.

Braint aruchel i Eglwys y Crwys oedd cael cwmni'r Parchedig Athro A. M. Allchin M.A.,D.D., o Rydychen, yr arbenigwr pennaf heddiw ar y ferch o Ddolwar Fach, a chafwyd ganddo anerchiad gwych, swmpus a chyrhaeddgar. Yn oedfa'r hwyr cyflwynodd Cymdeithas Ddrama'r Crwys, yn effeithiol iawn, ddramodig wedi'i seilio ar fywyd a gwaith y Fendigaid Ann. Portreadwyd Ann Griffiths gan Ruth Thomas, Ruth gan Lis Shore, John Hughes gan Robin Jones, Dieithryn gan Dan Bowen, a Phregethwr gan Gareth Williams. Yn ogystal cafwyd partïon o adroddwyr a chantorion yn y cynhyrchiad dan gyfarwyddyd George P. Owen.

D.Gwyn Jones

**"DAWNS Y DODO"** - Adolygiad.

Er mai llond dwrn yn unig oedd yn y gynulleidfa i Gwmni Theatr Gorllewin Morgannwg, cafodd eu drama diweddaraf, "Dawns y Dodo" dderbyniad brwdfrydig iawn.

Trwy gyfrwng dulliau theatrig, rhoddir cyfle i hen gwpwl, Cissie ac Idris, ail - fyw eu bywydau gyda'i gilydd, o ddyddiau canlyn hyd ddydd eu marwolaeth. Maent yn gwpwl hapus a dedwydd ar ddechrau'r daith, ond gwelwn eu perthynas yn dirywio, a straen bywyd pob dydd yn eu gwneud yn unig a blin. Cwyna Cissie ei bod wedi tyfu yn wraig ac yn fam, ond wedi colli adnabod ar bwy oedd hi'n wreiddiol. Mae Idris yntau wedi syrffedu ar ei waith, ac felly yn anodd i'w drin yn y cartref.

Wrth i'r ddau symud o gyfnod i gyfnod gyda'i gilydd, mae adlais pendant o ddrama Gwenlyn Parry, "Y Tŵr". Er mai fel 'comedi dywyll' y disgrifir "Dawns y Dodo", mae yna elfennau trasig iawn iddi. Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng hapusrwydd Cissie ac Idris ar ddechrau'r ddrama, a'r diffyg cyfathrebu sy'n datblygu rhyngddynt erbyn y diwedd yn greulon o amlwg ac fe welwn y ddau yn ymbellhau oddi wrth ei gilydd yn raddol drwy weddill y ddrama.

Dau actor yn unig oedd yn cymryd rhan: Manon Eames a Ioan Hefin. Cafwyd perfformiadau hynod o glodwiw gan y ddau. Roedd yr actio yn gynnil a'r portreadu'n fyw iawn. 'Roedd eu hadnabyddiaeth o'u cymeriadau yn amlwg, a'r broses o heneiddio.

Ar ddiwedd y ddrama mae'r ddau yn trafod gwahanol agweddau ar eu bywydau, ac yn darganfod nad oeddynt yn ymwybodol o hanner y pethau roedd y llall yn ei feddwl ac yn ei deimlo. Gwelwn mai dechrau gofidiau Cissie ac Idris oedd rhoi'r gorau i gyfathrebu, rhannu sgwrs, a bod yn agored am eu teimladau a'u meddyliau. Mewn cyfnod lle mae un o bob tair priodas yn chwalu, mae drama fel "Dawns y Dodo" yn amserol, ac yn cynnig cyngor pwysig i'r rhai sy,'n fodlon gwrando.

'Rydym wedi hen gynefino bellach ag arddull wreiddiol a chyffrous cynyrchiadau'r Cwmni hwn, ac wedi dod i ddisgwyl noson o brofiadau theatrig gwerth chweil ganddynt. Ches i mo'n siomi, ac o gofio'r curo dwylo byddarol yn y Sherman ar ddiwedd y perfformiad, chafodd neb arall eu siomi chwaith.

BECA BROWN.

# Bore Prysur i Mary Zampini o'r Gaiman Patagonia

Mae Mary Zampini o'r Gaiman draw yng Nghymru am dri mis i astudio dysgu Cymraeg yng nghylchoedd meithrin MYM gyda'r bwriad o ddychwelyd i'r Gaiman er mwyn agor cylch meithrin Cymraeg yno. Bu am fis yn y Gogledd yn ymweld â nifer o gylchoedd cyn dod i Goleg y Drindod yng Nghaerfyrddin i barhau ei hastudiaethau.

Ymwelodd yn frysiog â Chaerdydd am noson a bore ar ddiwedd Mai gan dreulio amser yng nghylch meithrin Rhiwbeina cyn mynd i Ysgol y Wern i gael cip ar y dosbarth derbyn. Oddi yno aeth i swyddfa MYM yn Heol Albany lle rhoddwyd croeso iddi gan Rita Jones y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Nans Couch y Swyddog Gweinyddol. Cyflwynwyd pecyn o nwyddau MYM iddi a mynegodd ei diolch i bawb am y croeso a'r caredigrwydd mae hi wedi ei dderbyn ers iddi gyrraedd Cymru.

# Stondin Wybodaeth yr Iaith Gymraeg




*Agoriad Stondin Wybodaeth yr Iaith Gymraeg gan Arglwydd Faer Caerdydd. Y Cynghorydd Derek Allinson. Mawrth 6th 1993.*

Cynhelir y stondin dan nawdd Pwyllgor Dwyieithrwydd Cyngor Dinas Caerdydd a'r nôd ydy rhoi gwybodaeth i Gymry Cymraeg am yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau drwy'r Gymraeg sy'n digwydd yn y Ddinas a hefyd i roi gwybodaeth i'r di-Gymraeg am gyrsiau dysgu Cymraeg. Mae'r stondin ar agor bob Sadwrn o 10.30 yn y bore tan 3.30 yn y pnawn ac fe'i lleolir yn y fynedfa i'r Farchnad Ganolog ochr Heol Eglwys Fair. Agorwyd y stondin yn swyddogol gan Faer y Ddinas sef y Cynghorydd Derek Allison ym mis Mawrth. Mae angen llawer mwy o wybodaeth ar y stondin am ysgolion Cymraeg, ysgolion meithrin Cymraeg, gweithgareddau hamdden, capeli Cymraeg a'r eglwys Gymraeg a chymdeithasau o bob math. Felly, ysgrifenyddion, cofiwch anfon pob gwybodaeth at Jill Murton yn Adran y Pwyllgorau, Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd (822061) CF1 3ND, neu well fyth ewch â gwybodaeth i'r stondin unrhyw Sadwrn. Mae angen gwirfoddolwyr i ofalu am y stondin, ac os gellwch gynnig eich gwasanaeth am sesiwn y bore 10.30 - 1.00 neu sesiwn y pnawn 1.00 - 3.30 cysylltwch â Neuadd y Ddinas os gwelwch yn dda.

## NOSWEITHIAU BYWIOG YNG NGHLWB IFOR BACH

Ar drothwy dathlu deng mlwyddiant sefydlu'r Clwb ym mis Gorffennaf mae'r Clwb mor boblogaidd ag erioed yn arbennig ar benthwynosau. Yn ystod mis Mai cafwyd nosweithiau bywiog yng nghwmni "Maffia", "Neil Rosser a'r Partneriaid" a "Tynal Tywyll" a'r lle dan ei sang a phawb yn mwynhau.

sain

O GAM I GAM

- Y FFORDD I FFITRWYDD

GYDA IONA

Y CYNTAF O'I FATH

92 munud - £10.99

**HEFYD FIDEOS**

CARIOCE - £8.99
(13 CÂN)

ANTURIAETHAU JINI MÊ 2 - £8.99
MIL O ALWADAU gyda Huw Geraint - £10.49

CASETIAU GAN (* AR CD HEFYD)

FIONA BENNETT - EDRYCH YMLAEN

CÔR PLANT PENCOED - ALAWON Y BRYNIAU*

CÔR CYMRAEG COLEG Y DRINDOD*

*SAIN - LLANDWROG - CAERNARFON - GWYNEDD*

(0286) 831111 (0286) 831497 (FFACS)

# DATBLYGIAD ARALL YN SAIN FFAGAN



Y mis diwetha agorwyd Swyddfa Bost Blaenwaun yn swyddogol ddydd Mercher y 26 o Fai. Mae adeilad arall yn agor y mis hwn ar y 26 sef bwthyn bach to gwellt o'r enw "Nant Wallter" o ardal Taliaris ger Llandeilo, Dyfed.

Fe'i adeiladwyd tua 1760-80 ac y mae'n nodweddiadol o dai annedd y gweithwyr tlotaf yng ngorllewin Cymru. Y mae'r muriau trwchus 750mm (2'6") o 'glom', wedi'u hadeiladu ar sail isel o gerrig. Cymysgedd trwchus yn cynnwys clai, cerrig man a gwellt neu redyn yw clom. Fe'i gosodid yn haenau o ryw 150 - 250mm (6'9") o drwch a'i adael i sychu. Yna torrid allan agoriadau sgwâr ar gyfer y ffenestri a'r drws a llyfhau'r muriau cyn eu gwyngalchu. Y mae'r to gwell wedi'i osod ar fangorwaith o gyll ac fe'i cynhelir gan ddau bâr o nenffyrch garw.

Y mae'r tu mewn wedi'i rannu'n ddwy ystafell - ystafell fyw gyda lle tân agored ac ystafell wely fach. Gellid defnyddio'r croglofft uwchben yr ystafell fach ar gyfer cysgu neu fel stordy. Bydd y dodrefn llwm yn adlewyrchu'r caledi yng nghefn gwlad yn y cyfnod hwn.

Ym 1814 'roedd saith cyfer o dir gyda'r tŷ pan oedd Daniel Daniel a'i deulu'n byw yno. Cyflogid ef ar Ystad Taliaris o bosib. Yn aml, ceid twlc mochyn gerllaw bythynnod o'r math hwn gan fod y teuluoedd yn ddibynnol iawn ar gig mochyn wedi'i halltu.

Yn ddiweddarach, ychwanegwyd cae arall o chwe chyfer at y tyddyn ac fe adeiladwyd beudy at y tŷ. Yn ystod y ganrif ddiwethaf ail gynlluniwyd tu mewn i'r tŷ. Gwnaed cyntedd bach i arwain i mewn i'r ystafell fyw, y pantri a'r ystafell wely, a cheid grisiau serth yn arwain i'r ddwy ystafell wely ar y llofft.

Gwnaethpwyd darganfyddiad hynod ddiddorol wrth ddatgymalu'r hen fwthyn. Tra'n tynnu ffenestr fechan o wal y llaethdy, daethpwyd ar draws hen bapur newydd wedi ei stwffio'n dynn i lenwi twll rhwng y ffrâm bren a'r wal. Papur wythnosol o'r enw Y Byd Cymreig ydoedd, wedi ei argraffu a'i gyhoeddi yng Nghastell Newydd Emlyn. Y dyddiad oedd 6ed o Ebrill 1865. Yn ffodus 'roedd nifer o'r tudalennau wedi goroesi mwy neu lai yn gyfan er bod ôl amser (a llygod!) ar lawer ohonynt. Ar dudalen 8, ynghyd â hysbysebion am Williams's 'Anthelmintic Worm Lozenges' a 'Hayman's Balsam' a oedd yn addo eich gwella o annwyd mewn deg munud (!), oedd hysbyseb am y llong Halton Castle a fyddai'n hwylio o Lerpwl ar y 25ain o Ebrill gyda'r fintai gyntaf i sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Tybed, a wnaeth Daniel Daniel a'i deulu ystyried ymfudo o Daliaris i gychwyn bywyd newydd ymhell dros y môr yn Ne America?

Wel, wnaethon nhw ddim symud, ond bellach, fe symudwyd eu hen gartref, Nant Wallter, i'r Amgueddfa Werin. Cyn hir, cawn gyfle i gamu nôl dros y canrifoedd i brofi sut gartrefi y trigai Daniel Daniel a'i fath ynddynt, nôl yn y 1780au sef y cyfnod a ddangosir ac a dehonglir yn yr Amgueddfa Werin.

Gerallt Nash.

## PROFIAD GWAITH I GERAINT

Yn ystod mis Mai cafodd Geraint Morris, mab Hywel a Judith Morris Llandaf amser ei fywyd gan ei fod wedi bod ar brofiad gwaith am bythefnos. Mae Geraint sy'n 17 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Glantaf yn ddall ers tua blwyddyn a hanner ond ni rwystrodd hynny e rhag ymuno yn y profiadau a drefnwyd ar ei gyfer gan Sefydliad y Deillion Caerdydd. Cafodd gyfle i yrru modur yr heddlu ar drac prawf, mynd ar fwrdd jet ym maes awyr Caerdydd, teithio hefo gyrrwr tren ac ati. Fydd yr ysgol byth yr un fath iddo eto!

### CYDYMDEIMLO

Bu farw tad Anthony Packer Penarth yn ysbyty Brenhinol Caerdydd ar y 24 o Fai yn 80 oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Fethodistaidd yr Eglwys Newydd a rhoddwyd ei weddillion i orwedd yn mynwent Pantmawr. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu colled fawr.

Estynnir cydymdeimlad â Gerallt Nash y Tyllgoed a'r teulu i gyd ar farwolaeth ei dad yn Nhŷ Ddewi ar y 10fed o Fai. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl Tŷ Ddewi ac fe'i claddwyd ym Mynwent Tŷ Ddewi.

Bu farw Olwen Jones gweddw J.E.Jones y Blaid a mam Angharad a Dewi Rhys, ym Melin y Wig, Llys Gwyn Caernarfon ar yr 16 o Fai. Bu'r angladd yng Nghapel Seilo Caernarfon ac fe'i claddwyd ym mynwent y Capel ym Melin y Wig. Roedd y teulu yn aelodau ffyddlon yng Nghapel y Crwys am flynyddoedd lawer.

## CRONFA GOFFA SAUNDERS LEWIS

Y llynedd ar wahoddiad Syr Cennydd Traherne a than nawdd Pwyllgor Morgannwg o Gronfa Goffa Saunders Lewis cynhaliwyd noson hynod o lwyddiannus yng Nghoedarhydyglyn i godi arian at y gronfa. Elinor Bennett y delynores oedd artist y noson a chodwyd mil o bunnoedd. Eleni eto cynhelir noson arall yng nghartre Syr Cennydd nos Sadwrn y 19 o Fehefin a'r tro hwn John Ogwen a Maureen Rhys fydd artistiaid y noson.

# LLONGYFARCHION

*I Dr Hywel Griffiths ar gael swydd newydd yn Nhŷ John Roberts yn Richmond Road i gynorthwyo'r Parch D.H.Owen gyda'r gwaith o weinyddu cyfundeb y Presbyteriaid.*

I Nia Rees, merch Mr a Mrs John Rees Pen-y-lan ar ei dyweddiad â Rhys Evans o Licswm, Clwyd. Mae hi yn athrawes yn Ysgol Glantaf ac mae yntau yn gweithio yng Nghaerdydd

*I Mathew Evans seren cynhyrchiad Ysgol Glantaf o'r sioe gerdd "Elvis" ar ennill lle yn RADA ar gwrs Diploma am dair blynedd. Ymgeisiodd 1,400 am le ar y cwrs ond dim ond 30 a ddewiswyd.*

I gerddor ifanc o Gaerdydd sef Meuryn Hughes ŵyr y diweddar Arwel Hughes sy wedi ennill cystadleuaeth "Live Wire Cymru" am sefydlu busnes newydd. Mae Meuryn yn 24 oed ac yn nai i'r arweinydd Owain Arwel Hughes ac fel rhan o'i waith mae'n argraffu cerddoriaeth a gyfansoddwyd gan ei daid. Ar ol astudio cerddoriaeth yn Llundain gan ennill gradd mewn cerdd, cyfansoddi ac arwain penderfynodd sefydlu busnes cyhoeddi. "Bydd e'n awr yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn rownd derfynol cystadleuaeth "Live Wire" sy'n cael ei chynnal yn Llundain y mis yma. Lwc dda Meuryn!

*I Kate Newton o Llancarfan sy'n ddisgybl yn Ysgol Glantaf ac a fu yn Barcelona ar ddiwedd Mai yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth pentathlon rhyngwladol. Mae hi'n aelod o Glybiau Ffensio Caerdydd a Phen - y - bont and hefyd mae hi'n hoffi saethu, marchogaeth, nofio, rhedeg a choginio!*

I Eira Jenkins Rhiwbeina ar gael swydd fel ysgrifenyddes yn Adran Gomisiynu S4C yn eu Canolfan yn Llanisien.

I Haydn Denman Adamsdown ar ei erthygl a'i luniau am Batagonnia yn un o rifynnau mis Mai o "Golwg". Bu allan yn y Wladfa am dri mis dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ar ôl cael grant gan Gyngor y Celfyddydau. Ffotograffydd proffesiynol ydy e a'i obaith ydy trefnu arddangosfa yng Nghaerdydd yr Hydref nesa o'r holl luniau a dynnodd ar ei ymweliad â De Amerig.

*I Iwan Walters mab Iolo ac Eiryl Walters Rhiwbeina a Mali Harries merch Telynores Llwchwr (Mags) Llandaf ar gael eu hethol yn brif swyddogion Ysgol Glantaf ar gyfer y Flwyddyn 93/94. Mae Iwan yn astudio Economeg, Cymraeg a Daearyddiaeth ac mae Mali yn astudio Cymraeg, Daearyddiaeth, Bywydeg a Cherddoriaeth Atodol. Mae'r ddau yn boblogaidd iawn ymhlith eu cyfoedion yn yr ysgol ac mae'r ddau â diddordebau eang ac yn ymuno yn holl weithgareddau'r ysgol gyda brwdfrydedd. Enillod Iwan cadair Eisteddfod Gŵyl Ddewi'r ysgol eleni, ac mae e hefyd yn chwarae rygbi dros yr ysgol ac yn canu yng Nghôr Ieuenctid De Morgannwg tra mae Mali yn gapten tîm hoci'r ysgol yn aelod o Gerddorfa Ieuenctid Sir De Morgannwg ac yn arweinydd llys. Pob dymuniad da iddyn nhw yn y dyfodol.*

*I Bethan Williams, Rhiwbeina sy'n athrawes fywydeg yn Ysgol Uwchradd Corpus Christi ar hyn o bryd ond a benodwyd yn bennaeth yr Adran Fywydeg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Bydd hi'n dechrau ar ei gwaith yno ym mis Medi.*

## TWMPATH DAWNS YSGOL IOLO

Cynhaliwyd noson o gawl a thwmpath dan nawdd Cymdeithas Rieni Athrawon Ysgol Iolo Morgannwg yn neuadd Ysgol Gynradd y Bontfaen nos Wener y 14 o Fai. Bu'r noson yn llwyddiant mawr.

## DARLITH YM METHEL RHIWBEINA

Er mai bychan iawn oedd y gynulleidfa cafwyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni y Parch Emrys Wynn Evans, Tŷ Croes, Rhydaman i wrando arno'n darlithio ar y testun "Caneri mewn Cawell" sef hanes ei brofiadau fel carcharor rhyfel. Adnewyddwyd Capel Bethel yn ddiweddar a chynhelir gwasanaeth yno bob bore Sul am chwarter i ddeg ac mae croeso cynnes i bawb.

## CYMANFA GANU'R CRWYS

Fe'i cynhaliwyd ar bnawn a nos Sul yr 16 o Fai dan arweiniad Mair Roberts Arweinydd Côl Cymysg y Creigiau. Tro'r plant oedd hi yn y prynhawn a chafwyd orig hyfryd yn eu cwmni. Roedd y capel yn llawn ar gyfer cymanfa'r oedolion gyda'r hwyr ac yn ystod yr oedfa cafwyd eitemau gan Gôr y Creigiau.

## CYNGERDD "MWYNDER MAI" YNG NGLANTAF

Cafwyd dwy awr a hanner o fwyniant pur yng nghwmni disgyblion Ysgol Glantaf nos Iau yr 20 fed o Fai pan gynhaliwyd Cyngerdd yn Neuadd yr ysgol uchaf yn Ystum Taf gan bawb oedd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Ngorseinon. Roedd y neuadd dan sang a mawr oedd y canmol ar y noson.

**Dylid anfon unrhyw ddeunydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst o'r Dinesydd erbyn y 25 o Fehefin at Ysgrifennydd Pwyllgor y Dinesydd, TŶ BEDW, 1 Birch Hill. Tongwynlais, Caerdydd (810600) CF4 7LL.**

## SWPER PEN TYMOR CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

Fel diweddglo i ddiwedd blwyddyn gyntaf y Gymdeithas cynhelir Swper Pen Tymor yn nhafarn "Y Deri" yn Rhiwbeina nos Iau yr 8fed o Orffennaf. Y wraig wadd fydd Helen Prosser Swyddog Cymraeg i Oedolion Cyd Bwyllgor Addysg Cymru. Am ragor o fanylion (693254)

## CWIS CANOLFAN YR URDD

Nos Wener yr 21 o Fai daeth deg tîm ynghyd ar gyfer Cwis y Ganolfan. Huw (Crwbin) Reynolds oedd y Cwisfeistr ffraeth ei dafod a chafwyd noson ddifyr yn ymgodymu â'r amrywiaeth o gwestiynau a holwyd ganddo. Bu deg rownd ac ar y diwedd Tîm Peredur (Pwt) Evans Cadeirydd Pwyllgor Canolfan yr Urdd a orfu.

## PENODI SWYDDOG DATBLYGU AR GYFER "MENTER TAF ELAI"

Penodwyd Steffan Webb y Rhath gynt o Trowbridge yn Swyddog Datblygu Menter Taf Elai a bydd o'n dechrau ar ei waith y mis yma. Enillodd radd mewn hanes yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth cyn mynd i Fangor i ddilyn cwrs hyfforddi i fod yn athro. Bu'n diwtor Cymraeg i oedolion ar ei liwt ei hunan am dair blynedd cyn cael swydd fel tiwtor Cymraeg yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion yn Park Place a bu yno am dair blynedd. Mae cynllun Menter Taf Elai yn debyg i gynllun Menter Cwm Gwendraeth a dywedodd Steffan wrth y Dinesydd ei fod yn edrych ymlaen at yr her o adeiladu a datblygu'r gwaith ar y seiliau a osodwyd eisoes gan wirfoddolwyr brwdfrydig ymhlith trigolion Taf Elai. Pob llwyddiant i Steffan a Menter Taf Elai.

Darganfod Cymru / Discovering Wales

Mae staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn eich gwahodd i ymuno â hwy ar gyfres o arweindeithiau, gan gynnwys.

LLANILLTUD FAWR
DE MORGANNWG
Nos Fercher, 16 Mehefin
Cyfarfod am 7 p.m. ger eglwys y plwyf.
Cyfeirnod Grid: Dalen 170/SS 965 686
Tro o amgylch y dref hanesyddol hon gan edrych yn arbennig ar y bensaerniaeth a'r treflun.

CYNFFIG, MORGANNWG GANOL
Dydd Sul, 20 Mehefin
Cyfarfod am 2 p.m. yn y maes parcio yng Ngwarchodfa Natur Cynffig.
Cyfeirnod Grid: Dalen 170/SS 802 810
Botaneg, ieir bach yr haf, infertebratau ac adar yr ardal.

CANOL CAERDYDD
DE MORGANNWG
Nos Fercher, 30 Mehefin
Cyfarfod am 7 p.m. ar brif risiau Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 185 769
Cylchdaith i edrych ar rai o'r planhigion dieithr sydd wedi ymsefydlu yn strydoedd a pharciau canol Caerdydd.

PENDERYN,
MORGANNWG GANOL
Nos Fercher, 7 Gorffennaf
Cyfarfod am 7 p.m. yn y Lamb Inn, Penderyn.
Cyfeirfod Grid: 160/SN 947 088
Daeareg a hanes naturiol yr ardal.

LLANDAF, DE MORGANNWG
Nos Fercher, 14 Gorffennaf
Cyfarfod am 7 p.m. ar Faes yr Eglwys Gadeiriol.
Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 155 780
Taith o amgylch un o'r dinasoedd lleiaf ym Mhrydain gan edrych yn arbennig ar y bensaerniaeth a'r treflun.

LLYN BRIANNE, DYFED
Dydd Sadwrn, 17 Gorffennaf
Cyfarfod am 2 p.m. ym maes parcio'r prif argae.
Cyfeirfod Grid: DALEN 147/SN 793 485
Daeareg a hanes naturiol yr ardal.

Tal £1 oedolion, 50P plant/henoed
Deiliaid Tocynnau Tymor yn Ddi-dal

Bydd pob taith yn dechrau ac yn gorffen yn y man cyfarfod a nodir. Dylech wisgo'n addas ar gyfer yr awyr agored. Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau am y teithiau i'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, ffôn (0222) 397951

# DE MORGANNWG

*Yn gwasanaethu Caerdydd a'r Fro*

ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL

Clerc Cynorthwyol Dros Dro
Y BONTFAEN
(i fyny hyd at 20 awr yr wythnos)
Cyfeirnod P79B £3,448 - £4,375

Yn eisiau ar gyfer mis Medi tan fis Mawrth 1994, person i weithio hyd at 20 awr yr wythnos yn y swyddfa. Byddai'r gallu i siarad a theipio yn Gymraeg o fantais. Rhoddir hyfforddiant ar y cyfrifiadur lle bo angen.

Mae Meithrinfa Ddyddiol yn Neuadd Y Sir (os oes lle gwag). Hefyd, mae Cylch Chwarae ar gael yn ystod gwyliau'r Haf a'r Pasg.

Manylion pellach oddi wrth y Prifathro,
Ysgol Iolo Morgannwg, Y Bontfaen,
Broadway CF7 7ER
Ffôn (0446) 772358
Noder Cyfeirnod y Swydd
Dyddiad cau: 24 Mehefin, 1993

Mae'r Cyngor Sir yn gyflogwyr cyfle cyfartal.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**
Sain Ffagan, Caerdydd
Prynhawn Sadwrn, 26 Mehefin
1.00 - 5.00 p.m.
(Agorir yr Amgueddfa am 10.00 y bore)

# GŴYL IFAN 1993

Codi'r pawl haf (3.30)
Dawnswyr gwerin (tua 2.00 - 4.30)

Adloniant (1.00 - 5.00) gan Arts Play Umbrella
Perfformiadau Syrcas
Clowniau
gweithdai syrcas
difyrwyr crwydrol
Arddangos crefftau traddodiadol
Tâl mynediad arferol




*Am fanylion pellach ffonwch Caerdydd 569441 neu 555105*

Cynlluniwyd ac argraffwyd gan Colin Watkins, 99, Maes y Coed Rd, Mynydd Bychan, Caerdydd. CF4 4HE.Ffon 624533 / 3 Heol y Deri, Rhiwbeina. Caerdydd. CF4 6HA.Ffôn 614170.

# SÊR Y DINESYDDD - MEHEFIN 1993

## GAN EIRY PALFREY



**ARIES:**

Bu bron i chi wneud smonach o'ch bywyd cawriaethol yn ddiweddar, ond dyw'r cyfan ddim ar goll, mae'r ser yn rhoi cyfle arall i chi i gael pethau'n iawn, ond da chi peidiwch a chawlio pethau eto. Cadwch lygad barcud ar eich pwrs, fe allech ei golli.

**TAURUS:**

Mae'n bosib y cewch chi'ch temptio i ddweud be sy'n eich meddwl wrth rywun cyn bo hir - gwrthodwch y demtasiwn, wnaiff e ddim ond achosi poen a thrafferth i chi. Taw piau hi'r tro 'ma. A gwnewch yn siwr eich bod yn gorffwys ddigon.

**GEMINI:**

Fe ddylai pethau fynd yn dda iawn i chi, yn enwedig yn y gwaith, yr hydref yma, a mi fydd gyda chi ddigon o ynni i symud mynyddoedd. Ond edrychwch dros eich ysgwydd, mae,n bosib fod rhywun ar fin eich twyllo.

**CANCER:**

Bydd pethau rhyfedd yn digwydd i chi cyn bo hir, ar un llaw fe ddaw cyfle ardderchog i'ch rhan, ond ar y llaw arall mi fyddwch chi'n teimlo'n rhy swrth i wneud dim yn ei gylch. Mae'ch lefel ynni yn isel ar hyn o bryd, beth am gymryd cwrs o fitaminiau?

**LEO:**

O ganol y mis ymlaen mi fyddwch chi'n llawn ynni a syniadau creadigol, a mi fydd lwc o'ch ochr hefyd i'ch helpu i'w gwireddu. Ond os na ofalwch chi mae 'na bosibilrwydd cryf y byddwch chi'n digio rhywun a chwalu'r cyfan gyda'ch tymer wyllt.

**VIRGO:**

Mae hwn yn addo bod yn fis eitha rhamantus i chi, mae llawer o newidiadau yn eich bywyd ar hyn o bryd, ond y newid mwyaf heb os yw'r un yn eich perthynas agos. Fe allai fod yn gyfnod poenus yn emosiynol ond mi fydd yn gyfnod o dyfiant mewnol.

**LIBRA:**

Os oes problemau yn eich perthynas agos ar hyn o bryd mae'n rhaid i chi eu hwynebu a cheisio'u datrys nawr. Mae'n bwysig eich bod yn trafod yr anhawsterau a pheidio â'u sgubo dan y carped gan fod yn gas gyda chi wynebu unrhyw beth annymunol.

**SCORPIO:**

Mae hwn yn gyfnod da i chi ehangu'ch gorwelion, i astudio gwyddor newydd, neu i fynd am wyliau. Fe ddylech chi glywed newyddion da ynglyn ag arian cyn diwedd y mis, ac er eich bod wedi aros yn hir amdano mi ddaw ar adeg derbyniol iawn.

**SAGITTARIUS:**

Mae hwn yn addo bod yn gyfnod creadigol iawn i chi, fe ddylech ddechrau ar brosiect newydd pwysig cyn bo hir fydd falle yn newid cwrs eich bywyd yn sylweddol. Byddwch yn barod i gymryd risg a fydd dim edifar gennych chi.

**CAPRICORN:**

Yn union pan oedd y darnau i gyd yn dechrau disgyn i'w lle mae'r sêr yn chwarae hen dric bach cas arnoch chi eto - mae llawer iawn o dwyll o'ch cwmpas ar hyn o bryd felly gwnewch yn siwr eich bod yn gofalu ar ôl eich eiddo, ac yn dal eich tafod!

**AQUARIUS:**

Mae newidiadau sylfaenol ar fin digwydd yn eich gweithgareddau bob dydd - newid tŷ, neu swydd. . . . , neu falle y byddwch chi'n magu agwedd newydd tuag at hen broblem. Mae eich iechyd braidd yn fregus ar hyn o bryd, lapiwch i fyny'n gynnes.

**PISCES:**

Os oes gyda chi broblemau cyfreithiol, neu broblem gyda'r awdurdodau peidiwch a cheisio eu datrys eich hunan, ewch at arbenigwr cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Nid dyma'r amser i geisio datrys problemau ar eich pen eich hunan.

---

**YN EISIAU**

tŷ ar osod i bedwar cyn gynted ag sy'n bosibl yn ardal Pontcanna, Treganna neu Lan yr Afon
Cysyllter â 572451 (dydd)
neu 576954 (nos).

---

Fflat helaeth, llawr cyntaf i 1/2 person.
Garej. Cyflwr da
Gostyngiad o £39,500 i £37,500.
Ardal Cathays
Ffôn (0222) 384562
neu (0745) 351323

---

**DYWEDDIAD**

Llongyfarchiadau i Miriam, merch Jan a Barbara Adam, Rhiwderin, Casnewydd, ar ei dyweddiad ag Aled Hopkins, Danescourt, Llandaf, Caerdydd.

---

# CORNEL Y PLANT

(i blant yr ysgolion cynradd)




Siomedig oedd ymateb y plant i gwis mis Mai. Dim ond un bachgen afonodd atebion sef Jonathan Tomos o Harold Street yn y Rhath, sydd yn 7 oed ac yn ddisgybl yn ysgol Bro Eirwg. Cafodd saith allan o wyth yn gywir. Da iawn Jonathan. Mae gwobr ar y ffordd i ti!

Atebion y cwis -1. Gorau Chwarae Cyd Chwarae 2. Jean 3. Cae'r Ras 4. Llanelli 5. Lisabeth Miles 6. Rygbi 7. Paul Gregory 8. 10 - 9

### Cystadleuaeth mis Mehefin

Tynnu llun maint ffwlscap ar y testun "Y Gwanwyn". Y lluniau i gyrraedd y Golygydd 6, Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd CF4 6EF erbyn diwedd mis Mehefin. Rhowch eich enw, cyfeiriad, oed, a'ch ysgol ar gefn y llun os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £2!

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn Rhif 130



## AR DRAWS

1. Cadwgan yn diystyru Anno Domimi gan adael trachwant direol. (5)
4. Lle wedi ei drefnu ar gyfer y Wasg. (8)
8. Bai epil dyn yw hi bod y brogaod bychain yn cael eu chwalu. (10)
9. Dyma yn hollol fel mae'r llanw yn troi. (4)
10. Daw y clyw yn well yn y drefn yma. (8)
11. Dioddef y prinder eithaf. (6)
12. Man y dyfroedd chwerw yn yr anialwch. (Gweler Ecsodus) (4)
14. I godi lleoedd gwaith i'r gwyddonwyr rhaid wrth ddeunydd a bildar o allu. (8)
17. Rhai diniwed a gaethiwir gan rai sy'n ceisio rhyw ddiben gwleidyddol. (8)
18. Aderyn ysglyfaethus sy'n cuddio mewn man gwlyb o dan craig. (4)
20. Doethur mewn Diwinyddiaeth yn cornelu Baglor yn y Celfyddydau rhwng dau arddodiad mewn ymgiprys distop. (6)
22. Gwthiai Benjamin Dafis i gael trip i blant yr Ysgol Sul. (8)
24. Gwegil diwylliedig? (4)
25. Afon a argaewyd i foddi'r hen Lanwddyn ac i greu llyn. (4-6)
26. Brawd sur yn troi yn ddichellgar. (8)
27. Rhoddodd Gladys glwtyn i guddio'r llestr. (5)

## I LAWR

1. Llestr o arwyddocad cyfriniol a sanctaidd. (5)
2. Balm Siwan sydd i'w gael yng ngherbyd yr anafus. (9)
3. "Yn wyneb pob ----- Y sydd neu eto ddaw" Emyn gan rywun anhysbys a genid gynt ar yr hen dôn "Babel". (6)
4. Hen furddun urddasol ger Llangollen. (5,4 - 1 - 5))
5. Hanner y bobl unedig yn troi i buteinio!! (8)
6. Awgrym o liw i'r llaw grynedig. (5)
7. Swynwyr yn mwstro i newid Dai. (9)
13. Blaenoriaid yn penderfynu ar enwi wŷr i'r un swyddogaeth. (9)
15. Llinyn o ffiloreg treigledig. (9)
16. Sain ac odl i ŵr sy'n teilyngu enwogrwydd. (8)
19. Yr olaf ar ddiwedd rhes o ddeg cant. (6)
21. Mae 'mrawd yn gallu ymddwyn braidd yn anaeddfed. (5)
23. Bachgen sy 'n berchen ar lyn a chwm (a gwarchodfa natur) yn Eryri. (5)

**Cystadleuaeth Rhif 130**

**Tocyn Llyfr £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd. erbyn Mehefin yr 25, os gwelwch yn dda.**




## CYSTADLEUAETH RHIF 129

*Derbyniwyd naw ymgais, saith ohonynt yn hollol gwyir. Yr enw lwcus a dynnwyd oedd Mrs Eira Jones, 4, Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, ac fe fydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddi gyda hyn. Daeth yr atebion cywir eraill oddi wrth Guto Rhys, Y Rhath; Mair Tysul Jones, Yr Eglwysnewydd; Huana Simpson, Y Bontfaen; Margaret Jones, Cyncoed; John Breese, Glanyrafon; Marged Davies, Llandaf.*

DINAS CAERDYDD
ADRAN TRYSORYDD Y DDINAS

CITY OF CARDIFF
CITY TREASURER'S DEPARTMENT

# TRETH GYNGOR - YDYCH CHI WEDI TALU ETO?

Os ydych chi wedi talu rhandaliadau eich Treth Gyngor hyd yma, diolch i chi am dalu'n brydlon.

Fodd bynnag, os ydych mewn ôl-ddyled gyda'ch Treth Gyngor, mae Cyngor Y Ddinas yn cymryd camau i gael y taliad.

## Beth sy'n digwydd os nad ydych chi wedi talu?

Anfonir Rhybudd Atgoffa sy'n dweud wrthych faint sy'n ddyledus ac yna rhoddir saith diwrnod i chi dalu'r rhandaliadau dyledus. Os na wnewch hyn, wedi saith diwrnod arall byddwch yn colli eich hawl i dalu drwy rhandaliadau a bydd cyfanswm cyfan y Dreth Gyngor sy'n ddyledus i'w dalu ar unwaith.

Os na thelir y cyfanswm cyfan byddwch yn derbyn gwŷs i ymddangos o flaen Llys Ynadon Caerdydd, lle bydd Cyngor y Ddinas yn gofyn am Orchymyn Cyfrifoldeb yn eich erbyn. Fe all bod costau o £25 yn cael ei wneud yn eich erbyn ac a fydd yn cael ei ychwanegu at swm y Treth Gyngor sydd arnoch.

## Beth petaech chi yn talu yr hyn sydd arnoch chi, ond yn peidio talu y rhandaliad yn ddiweddarach?

Byddwch yn derbyn ail Rybudd Atgoffa, gyda'r un un canlyniadau ag a welir uchod.

## A ddanfonir i chi Rybuddion Atgoffa ar ôl hynny?

Na! Os collwch chi dalu y trydydd rhandaliad, bydd y cyfanswm cyfan sy'n ddyledus yn daladwy ar unwaith ac, heb unrhyw Rybudd pellach, bydd Cyngor y Ddinas yn gofyn i Lys Ynadon Caerdydd am Orchymyn Cyfrifoldeb, ynghyd y chostau, yn eich erbyn.

## Beth sy'n digwydd os ceir Gorchymyn Cyfrifoldeb yn eich erbyn?

Rhoddir gwybod i chi bod y Gorchymyn wedi ei gael yn eich erbyn a bydd rhaid i chi roi manylion ariannol neilltuol, gan gynnwys manylion am eich gwaith.

Yna, mae gan Gyngor y Ddinas awdurdod i :-

* Anfon allan Atafael Enillion i'ch cyflogwr.
* Gofyn i Adran Nawdd Cymdeithasol ei dynnu allan o'ch Cymorth Incwm.
* Mynd â nwyddau neilltuol o'ch eiddo a'u gwerthu drwy ocsiwm gyhoeddus.
* Mewn rhai achosion, gwneud cais i'r Llys Sirol am Orchymyn Pris yn erbyn eich eiddo.

## Beth fyddai'n digwydd pe baech yn parhau i beidio â thalu?

Byddai gwrthod bwriadol i dalu yn golygu erlyniadau cyfreithiol pellach drwy gais i'ch rhoi yng ngharchar.

NID YW CYNGOR Y DDINAS EISIAU CYMRYD Y CAMAU HYN. GALLWCH EU HOSGOI DRWY DALU YR HYN SYDD ARNOCH CHI AR UNWAITH.

Os oes gennych gyfrif banc/cymdeithas adeiladu, y dull hawsaf yw talu drwy DEBYD UNIONGYRCHOL. Nid yw yn rhy ddiweddar i ddechrau talu yn y modd yma, ac os ydych am ddefnyddio'r dull hwn gallwn anfon ffurflen i chi ar unwaith.

Os ydych am dalu drwy Debyd Uniongyrchol, neu os ydych chi yn ei chael hi'n anodd i dalu, galwch y rhif ffôn a welir isod yn ôl yr ardal lle 'r ydych chi'n byw.

Y Tyllgoed/Llanisien/Radur/Y Rhath/Sain Ffagan/Tongwynlais/Trowbridge/Yr Eglwys Newydd................822036

Adamsdown/Caerau/Treganna/Y Waun/Rhiwbeina/Riverside/St.Mellons................822037

Castle/Cathays/Trelai/Llysfaen/Llandaf/Ystum Taf/Llanrhymni/Splott................822038

Butetown/Cyncoed/Gabalfa/Grangetown/Pentwyn/Rhymni/Plasnewydd................822039

# Darganfod Cymru Discovering Wales

Mae staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn eich gwahodd i ymuno â hwy ar gyfres o arweindeithiau, gan gynnwys.

LLANILLTUD FAWR
DE MORGANNWG
Nos Fercher, 16 Mehefin
Cyfarfod am 7 p.m. ger eglwys y plwyf.
Cyfeirnod Grid: Dalen 170/SS 965 686
Tro o amgylch y dref hanesyddol hon gan edrych yn arbennig ar y bensaerniaeth a'r treflun.

CYNFFIG, MORGANNWG GANOL
Dydd Sul, 20 Mehefin
Cyfarfod am 2 p.m. yn y maes parcio yng Ngwarchodfa Natur Cynffig.
Cyfeirnod Grid: Dalen 170/SS 802 810
Botaneg, ieir bach yr haf, infertebratau ac adar yr ardal.

CANOL CAERDYDD
DE MORGANNWG
Nos Fercher, 30 Mehefin
Cyfarfod am 7 p.m. ar brif risiau
Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 185 769
Cylchdaith i edrych ar rai o'r planhigion dieithr sydd wedi ymsefydlu yn strydoedd a pharciau canol Caerdydd.

Tal £1 oedolion, 50P plant/henoed
Deiliaid Tocynnau Tymor yn Ddi-dal

PENDERYN,
MORGANNWG GANOL
Nos Fercher, 7 Gorffennaf
Cyfarfod am 7 p.m. yn y Lamb Inn, Penderyn.
Cyfeirfod Grid: 160/SN 947 088
Daeareg a hanes naturiol yr ardal.

LLANDAF, DE MORGANNWG
Nos Fercher, 14 Gorffennaf
Cyfarfod am 7 p.m. ar Faes yr Eglwys Gadeiriol.
Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 155 780
Taith o amgylch un o'r dinasoedd lleiaf ym Mhrydain gan edrych yn arbennig ar y bensaerniaeth a'r treflun.

LLYN BRIANNE, DYFED
Dydd Sadwrn, 17 Gorffennaf
Cyfarfod am 2 p.m. ym maes parcio'r prif argae.
Cyfeirfod Grid: DALEN 147/SN 793 485
Daeareg a hanes naturiol yr ardal.

Bydd pob taith yn dechrau ac yn gorffen yn y man cyfarfod a nodir. Dylech wisgo'n addas ar gyfer yr awyr agored. Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau am y teithiau i'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, ffôn (0222) 397951

# DE MORGANNWG

*Yn gwasanaethu Caerdydd a'r Fro*

**ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL**

Clerc Cynorthwyol Dros Dro
Y BONTFAEN
(i fyny hyd at 20 awr yr wythnos)
Cyfeirnod P79B £3,448 - £4,375

Yn eisiau ar gyfer mis Medi tan fis Mawrth 1994, person i weithio hyd at 20 awr yr wythnos yn y swyddfa. Byddai'r gallu i siarad a theipio yn Gymraeg o fantais. Rhoddir hyfforddiant ar y cyfrifiadur lle bo angen.

Mae Meithrinfa Ddyddiol yn Neuadd Y Sir (os oes lle gwag). Hefyd, mae Cylch Chwarae ar gael yn ystod gwyliau'r Haf a'r Pasg.

Manylion pellach oddi wrth y Prifathro,
Ysgol Iolo Morgannwg, Y Bontfaen,
Broadway CF7 7ER
Ffôn (0446) 772358
Noder Cyfeirnod y Swydd
Dyddiad cau: 24 Mehefin, 1993

Mae'r Cyngor Sir yn gyflogwyr cyfle cyfartal.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU
## AMGUEDDFA WERIN CYMRU
Sain Ffagan, Caerdydd
Prynhawn Sadwrn, 26 Mehefin
1.00 - 5.00 p.m.
(Agorir yr Amgueddfa am 10.00 y bore)

# GŴYL IFAN 1993

Codi'r pawl haf (3.30)
Dawnswyr gwerin (tua 2.00 - 4.30)

Adloniant (1.00 - 5.00) gan Arts Play Umbrella



Perfformiadau Syrcas
Clowniau
gweithdai syrcas
difyrwyr crwydrol
Arddangos crefftau traddodiadol
Tâl mynediad arferol



*Am fanylion pellach ffonwch Caerdydd 569441 neu 555105*

Cynlluniwyd ac argraffwyd gan Colin Watkins, 99, Maes y Coed Rd, Mynydd Bychan, Caerdydd. CF4 4HE. Ffon 624533 / 3 Heol y Deri, Rhiwbeina. Caerdydd. CF4 6HA. Ffôn 614170.